Cofnodion Cyngor nos Iau Ionawr 12 2023 am 7pm
Presennol: E.R.Noble, C.Brewer, T.W.Jones, M.L.Hughes, M.Skerrett, Liz Roberts, C.L.Price, I.W.Griffiths.
Datgan Diddordeb. Dim

Cofnodion: Cadarnhawyd cofnodion 8.12.22, cynnig T.W.Jones, cefnogi M.L.Hughes, yn dilyn rhai newidiadau oedd ei hangen a nodwyd gan y Clerc.

Heddlu. Atebiad gan y Rhingyll R.Evans, nid oedd wedi derbyn y neges wreiddiol, mae'r Heddlu yn bwriadu trefnu i ddod i gyfarfodydd y Cyngor Cymuned yn y Flwyddyn Newydd, PCSO Peter Jones ac Elin Harlow fydd yn gyfrifol am ardal Dolwyddelan. Derbyniwyd atebiad gan yr Arolygydd Laura Salisbury yn diolch i'r Cyngor am ei dymuniadau da yn ei swydd newydd ac yn cadarnhau ei bod wedi sylwi nad oedd ymweliadau â Chynghorau yn cymryd lle - mae hi wedi trafod hyn gyda'r Rhingyll Evans - bydd cyfarfodydd Cynghorau yn rhan o'u cynlluniau o hyn allan.

Yr A470. Nid oedd Liz Roberts wedi llwyddo i gael gwybod sut mae'r data o'r 'gwn goryrru' yn cael ei ddatrus a'i ddosbarthu, h.y. gyda'r Heddlu a NMWTRA - Clerc i gysylltu â J.Morris eto..

Cyngor Sir. Gan nad oedd adroddiad am waith ger Allt Penrhiw nac Allt Cyfyng wedi'i dderbyn, Clerc i gysylltu gyda K.Jones a Karl Jones am adroddiad gan gyfeirio hefyd at y tyllau drwg yn y ffordd at Orsaf Roman a llifogydd ar y ffordd ger Ffridd. Atebiad gan Richard Roberts CCBC, ni ellir gosod arwydd 'Dim mynediad' ar y ffordd o Orsaf Pont y Pant tuag at ffordd Ty Isaf gan ei bod yn 'adopted highway'. Gellir gosod arwydd yn nodi 'Gates Giatiau' ond doedd yr Aelodau ddim yn meddwl llawer o hynny, Clerc i gysylltu eto gyda R.Roberts. Dim i'w adrodd am dynnu'r 'ystol' yn Granlllyn.

Llwybrau. Dim i'w adrodd.

Pontydd yn yr Ardal. Clerc wedi cysylltu â Bryn Shiland heb gael atebiad. Deallwyd ei bod yn debygol na fydd gwaith yn cymryd lle hyd 2024 oherwydd diffyg arian..

Cynlluniau.
Ty'n Afallen - dim penderfyniad
Bodygroes - dim penderfyniad
Pont Chwarel y Fedw - dim penderfyniad
3 Bron Llan - Dim gwrthwynebiad.
Cynllun Fferm Tanrallt - dim gwrthwynebiadau.
Gwalia - Mae'n debygol fod y cais wedi'i ganiatau, dim gwybodaeth am hynny wedi'i dderbyn.

Llifogydd. Dil i'w adrodd.

Scottish Power. Dim i'w adrodd.

Toiledau. Clerc wedi trafod gyda Zac ar gyfer agor y toiledau 24 awr y dydd, roedd ganddo peth pryderon a holodd oedd yswiriant ar gyfer hynny - dim ymateb wedi'i dderbyn gan y cwmni.

Y Gofgolofn. Dim i'w adrodd, Clerc i gael gair gydag E.Roberts am y wal.

Gwaith yn y Fynwent. Rhoes C.Brewer adroddiad manwl am y gwaith - bob un o'r contractwyr wedi'u talu fel y cytunwyd.(Nodwyd diddordeb gan C.Brewer). Dylai'r taliad grant i'r Cyngor

fod yn £6194.66, Clerc i holi am sefyllfa'r TAW, gwnaiff Liz Roberts drafod hyn gyda Haf Jones hefyd. Cadarnhaodd C.Brewer fod amcan bris wedi'i dderbyn ar gyfer gwaith ar 'cwt hers', trafodwyd hyn - angen cymorth grant - pa ffynhonnell? - yn dilyn trafodaeth ystyriol cytunwyd y dylai C.Brewer a Liz Roberts drafod gwahanol opsiynau a threfniadau i symud ymlaen gyda'r gwaith yma ac adrodd yn ôl i'r Aelodau.

Ariannol. Rhoes y Clerc adroddiad am y sefyllfa bresennol i'r Aelodau a chytunwyd ar y biliau i'w talu, cynnig I.W.Griffiths, cefnogi M.L.Hughes a pawb o blaid.

Coeden Nadolig. Gwnaiff C.Brewer ymholiadau am gôst y goeden.

Gwefan y Cyngor. Cadarnhaodd M.Skerrett fod oddeutu 400 ymweliad wedi bod ar y safle.

Llysiau'r Dial. Clerc i drafod opsiynau gyda A.Farrar ALFA.

Torri Coed. Deallwyd fod y gwaith yn mynd yn ei flaen yn hwylus heb broblemau.

Llwybyr ger Chwarel Ty'n y Bryn. Trafodwyd opsiynau eto, gan gytuno mai gosod camfa ar y safle yw'r ateb i'r broblem.

Dolwyddelan yn ei Blodau. Cadarnhaodd C.Brewer bod Dolwyddelan yn ei Blodau bellach wedi'i sefydlu fel is-bwyllgor o fewn y Cyngor Cymuned a'r aelodau: E.Noble, C.Brewer, Gwyn Roberts ac Ian Richardson (Trysorydd Dol yn ei Blodau DyB) bydd C.Brewer a trysorydd DyB yn rhoi adroddiadau rheolaidd i'r Cyngor fel bo angen a'r Clerc yn cydweithio gyda trysorydd DyB fel bo angen. Mae DyB yn bwriadu trosglwyddo unrhyw arian sydd yn y coffrau ar hyn o bryd i'r Cyngor Cymuned, diolchwyd yn fawr am hyn.

Allt Gweithdy. Deallwyd fod peth problemau gyda llifogydd yma, Clerc i godi hyn gyda Karl Jones a chynnwys Allt Penrhiw, y ffordd yn llifo ger Ffridd a'r tyllau yn y ffordd o Orsaf Roman hyd at yr A470. Gwnaiff Liz Roberts gael y manylion cyswllt.

Cyfarfod nesaf. Cytunwyd i gyfarfod nesaf nos Iau Chwefror 9.

Archeb 2023/24

Roedd y Clerc wedi paratoi a dosbarthu manylion manwl i'r Aelodau ar gyfer gofynion a gwariant ac fe'u trafodwyd yn llawn. Yn naturiol cyfeiriwyd at y gwaith llwyddiannus oedd wedi'i gwblhau yn y Fynwent a chytunwyd fod hyn yn profi beth ellir ei wneud pan fo gwahanol 'gyrff' yn dod at ei gilydd a gwahanol ffynonellau ariannol yn cael eu gwyntyllu yn llwyr. Cyfeiriwyd at y cynnydd cyffredinol yng nghostau pob math o ddefnyddiau, dylid cadw hyn yn y cof. Hyderwyd y gellid gweld gwireddu rhai 'cynlluniau eraill' sy'n cael eu trafod ar gyfer gwella ardaloedd yn yr ardal petae'r cyllid 'addas' ar gael. Yn dilyn trafodaeth fuddiol a thrylwyr cynigodd M.Skerrett gyda Liz Roberts yn cefnogi a phawb o blaid, y dylid gwneud cais am Archeb o £12,000 ar gyfer y flwyddyn 2023/24.